## Newyddion diweddaraf Data Cymru – PCYC Chwefror 2025

**Prosiectau a lansiwyd yn ddiweddar:**

### 1. *Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol – Cyhoeddi Astudiaeth Achos*

Yng Ngorffennaf 2024, aeth ein cynnig Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn fyw. Roedd hyn yn cynnwys arolwg safonedig y mae cynghorau lleol ei gynnal ymhlith eu preswylwyr, yn ogystal â dangosfwrdd canlyniadau i gefnogi cymharu a meincnodi cenedlaethol.

Cyhoeddom ni astudiaeth achos ym mis Hydref 2024, a roddodd fanylion y gwersi o'r prosiect cenedlaethol unigryw hwn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sam Sullivan.

### 2. *Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol – Caffael Data am y Farchnad Lafur*

Rydym yn darparu cymorth data i'r pedair partneriaeth ranbarthol ledled Cymru. Rydym yn caffael data am y farchnad lafur ar eu rhan, gan leihau costau trwy gydweithio. Yn Nhachwedd, estynnom ni'r cymorth hwn trwy gaffael offeryn marchnad lafur masnachol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gynhyrchu eu dosbarthiadau economaidd eu hun, heb eu cyfyngu i gategorïau traddodiadol SIC/SOC. Dylai'r offeryn hwn fod yn well o ran dosbarthu a chipio data ynghylch sectorau sy'n dod i'r amlwg, fel technoleg ariannol, nad oes darpariaeth briodol ar eu cyfer yn y systemau dosbarthiadau economaidd traddodiadol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sam Sullivan.

**Hyfforddiant a gweminarau**

**Cynnig hyfforddiant ar-lein - Prynu Un, Cael Un AM DDIM!**

Tan 31 Mawrth 2025, prynwch unrhyw un o'n cyrsiau hyfforddiant ar-lein a chael ail gwrs **AM DDIM** * (*y cwrs rhatach sydd am ddim).

Rhaid prynu a thalu am bob cwrs erbyn 31 Mawrth 2025, ac mae cyflenwi ar gael hyd 31 Gorffennaf 2025, fel y gallwch amserlennu'ch dysgu am adeg sy'n gyfleus i chi.

Cymerwch yr un cwrs dwywaith gyda charfannau gwahanol (20 cynrychiolydd y garfan) neu dewiswch ddau gwrs gwahanol—chi biau'r dewis! Mae pob cwrs yn para am ddwy awr yn fras.

Dewiswch o gyrsiau fel:

- Cyflwyno Data
- Ystadegau Cryno
- Dylunio Arolygon
- Grwpiau Ffocws
- Data 101

- Deall Data Perfformiad

Peidiwch â cholli'r cyfle anhygoel hwn i ehangu'ch sgiliau a dyblu'ch effaith.

Diddordeb? Cysylltwch â Róisín Roberts ar 029 2090 9599 neu e-bostiwch roisin.roberts@data.cymru i drafod eich gofynion.

**Arweiniadau hyfforddiant**

Rydym wedi cyhoeddi arweiniadau hyfforddiant ar:

- Cyfleu eich pwynt: Cyflwyniad i gyflwyno data'n effeithiol
- Deall eich gwybodaeth: Cyflwyniad i ystadegau cryno
- Clywed oddi wrth ddinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal arolygon
- Ymgysylltu â dinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal grwpiau ffocws

Maent ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan.

**Rhaglen gweminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'**

Rydym yn cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen gweminarau 'hysbysu ac ysbrydoli'. Am ragor o wybodaeth ac i archebu tocynnau, ewch i TicketSource.

Mae recordiadau o'n gweminarau blaenorol ar gael ar ein gwefan.

Rydym bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, gwneud, neu wrthi'n gwneud, rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – yn llwyddiannus neu fel arall. Yn yr un modd, hoffem ni glywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil yr hoffech chi ddysgu mwy amdanyn nhw yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.

**Rhaglen hyfforddiant agored adeiladu capasiti**

Hoffech chi ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau cael mwy o werth ohono? Ydych chi'n meddwl am ehangu'ch sgiliau?

Mae gennym gyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

Rydym yn cynnal pob un o'n cyrsiau hyfforddiant ar-lein dwywaith bob chwarter lle gall cydweithwyr o gynghorau lleol gofrestru i fynychu **am ddim**. Gall sefydliadau eraill fynychu am gost o £50 ynghyd â TAW y person, y sesiwn.

I gadw lle ar un o'n sesiynau agored, ewch i Ticketsource.

Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau'n cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig gyda deunyddiau Cymraeg a chyfieithu-ar-y-pryd ar gael yn ôl yr angen. Yn 2024-25, ein bwriad yw cyflwyno pob cwrs yn Gymraeg o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn.

Fel arall, am gost fychan, gallwn ddarparu cyrsiau hyfforddiant yn unswydd ar gyfer eich sefydliad chi, ar-lein neu wyneb yn wyneb, ar adeg a dyddiad sy'n addas i chi.

Os hoffech chi drafod eich gofynion chi, yna cysylltwch â Roisin Roberts.